

## DAVIES, STEPHEN (bu farw 1794), atgyfodwr achos y Bedyddwyr yn nhref Caerfyrddin ar ôl diflaniad y gynulleidfa gyntaf yn y 17eg ganrif.

**Enw:** Stephen Davies

**Dyddiad marw:** 1794

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** atgyfodwr achos y Bedyddwyr yn nhref Caerfyrddin ar ôl diflaniad y gynulleidfa gyntaf yn y 17eg ganrif.

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Trwy lafur **Enoch Francis** yr oedd cangen o eglwys Fedyddiedig Castellnewydd Emlyn wedi plwyfo yn Ffynnonhenri (Llanpumpsaint); ac yr oedd mab-yng-nghyfraith i **Enoch Francis**, sef Stephen Davies, yn aelod ynddi. Yn 1757, cymerodd ef dŷ annedd yn Heol-y-prior, Caerfyrddin, i bregethu 'n achlysurol ynddo, gan fod nifer o aelodau'r Ffynnon yn byw yn y dref. Yn 1765, daeth i fyw i'r dref a chadw siop lleiniau yn Heol Awst; ac yn 1768 (**Joshua Thomas**, *Hist. Bapt. Assoc.*, 62) corfforwyd y Ffynnon a Heol-y-prior yn un eglwys. Yn 1775, dymunai rhai urddo Stephen Davies yn gydweinigod, ond yr oedd cymaint gwrthwynebiad nes i'r eglwys ymrannu. Aeth gwrthwynebwyr Davies i addoli i'r hen Briordy - dyma'r gynulleidfa a ddaeth wedyn yn eglwys y Porth Tywyll, sy'n awr yn y Tabernacl. Daliodd Davies a'i blaid eu gafael ar yr hen aelwyd yn Heol-y-prior, gyda'r Tŷ Coch ym mhlwyf Llangynog, ac urddo Davies yn weinigod; ond nid cyn 1778 (**Joshua Thomas**, op. cit., 67) y rhoes y gymanfa'r hawl iddynt i ymgorffori. Codwyd capel yn Heol-y-prior yn 1786 - dyma eglwys Penuel heddiw. Yn 1792, fodd bynnag, diarddelwyd Davies gan ei eglwys - dywed rhai (J.T. J., i, 112) mai am iddo fethu yn ei fasnach; credai **David Jones** (*Bed. Deheubarth*, 444) mai yn herwydd anghydfod ynghylch yr arian a gasglwyd at godi'r capel. Haws yw credu (**D. Jones**, op. cit., 443) mai gwrthdaro personol oedd yma: tystia ei gydweinigod gynt, **Daniel Davies** o'r Felin-foel, ei fod yn ddyn da, ond o dymer anhyblyg - chwanega ei fod o gorff cryf, yn wych ei ddillad ac yn powdro'i berwig, 'yn ŵr cyfrifol yn y byd ac o ymddygiad boneddigaidd.' Nid dibwys chwaith, efallai, yn wyneb yr hyn a ddigwyddodd yn Heol-y-prior yn 1799, yw'r awgrym a roddir gan **Richards** o Lynn (gweler *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1930, 35-6) o wahaniaethau diwinyddol yno. Bu Stephen Davies farw yn 1794, a chladdwyd ym mynwent Ffynnonhenri.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778), 558, 574

a'r cyfeiriadau uchod

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734409

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). DAVIES, STEPHEN (bu farw 1794), atgyfodwr achos y Bedyddwyr yn nhref Caerfyrddin ar ôl diflaniad y gynulleidfa gyntaf yn y 17eg ganrif.. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-STE-1794>

Cyfeirnod

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government